**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cyngor

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 24 Mai 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | J P Curtice | N J Davies |
| A M Day | P Downing | C R Doyle |
| M Durke | V M Evans | C R Evans |
| W Evans | E W Fitzgerald | R Francis-Davies |
| S J Gallagher | L S Gibbard | K M Griffiths |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| C A Holley | P R Hood-Williams | B Hopkins |
| D H Hopkins | O G James | L James |
| M H Jones | P K Jones | L R Jones |
| J W Jones | E J King | E T Kirchner |
| M A Langstone | M B Lewis | R D Lewis |
| W G Lewis | A S Lewis | C E Lloyd |
| P Lloyd | P M Matthews | P N May |
| H M Morris | S Pritchard | A Pugh |
| J A Raynor | C Richards | B J Rowlands |
| M Sherwood | P B Smith | R V Smith |
| A H Stevens | R C Stewart | M Sykes |
| G J Tanner | M Thomas | L V Walton |
| T M White | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Y V Jardine, S M Jones, I E Mann, C L Philpott, K M Roberts, D G Sullivan, L G Thomas, W G Thomas a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 1. Ethol Aelod Llywyddol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019.

Derbyniwyd enwebiad ar gyfer y Cynghorydd D W W Thomas. Cynigiwyd ac eiliwyd yr enwebiad.

**Penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd D W W Thomas yn Aelod Llywyddol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018-2019.

**Bu'r Cynghorydd D W W Thomas (Aelod Llywyddol) yn llywyddu**

## 2. Ethol Dirprwy Aelod Llywyddol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019.

Derbyniwyd enwebiad ar gyfer y Cynghorydd J P Curtice. Cynigiwyd ac eiliwyd yr enwebiad.

**Penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd J P Curtice yn Ddirprwy Aelod Llywyddol ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019.

## 3. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datganiadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog gyswllt i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw gysylltiad ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

(1) Datganodd y Cynghorwyr C Anderson, P M Black, J E Burtonshaw, M C Child, , J P Curtice, N J Davies, A M Day, P Downing, C R Doyle, M Durke, C R Evans, V M Evans, W Evans, E W Fitzgerald, R Francis-Davies, S J Gallagher, L S Gibbard, K M Griffiths, J A Hale, D W Helliwell, T J Hennegan, C A Holley, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, O G James, L James, J W Jones, L R Jones, M H Jones, P K Jones, S M Jones, E J King, E T Kirchner, M A Langstone, A S Lewis, M G Lewis, R D Lewis, W G Lewis, C E Lloyd, P Lloyd, P M Matthews, P N May, H M Morris, S Pritchard, A Pugh, J A Raynor, C Richards, B J Rowlands, M Sherwood, P B Smith, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, D G Sullivan, M Sykes, G J Tanner, D W W Thomas, L G Thomas, M Thomas, W G Thomas, L J Tyler-Lloyd, G D Walker a T M White gyswllt personol â Chofnod 7 "Materion Cyfansoddiadol 2018-2019.";

## 4. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2018.

## 5. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Gwobrau

Cyhoeddodd yr Aelod Llywyddol yn dilyn Seremoni Dyfarniadau Blynyddol Cymunedau Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC) a gynhaliwyd ar 22 Mai yn Orendy Margam, yr enillodd Rhaglen Gomisiynu Anghenion Cymhleth Bae'r Gorllewin y wobr am y categori 'Cyflawni Diben Cyffredin', a bod Rhaglen Bae'r Gorllewin yn gyffredinol wedi ennill y wobr am y 'Fenter Llywodraeth Leol Orau'.

Mae hyn yn gyflawniad gwych i'r bartneriaeth, ac yn brawf o waith caled ac ymroddiad cydweithwyr o'r holl sefydliadau partner.
Estynnodd ei longyfarchiadau i bawb.

**2) Diwygiadau/Cywiriad i Wŷs y Cyngor**

**a) <u>Eitem 8 "Materion Cyfansoddiadol 2018-2019”</u>**

Amlinellodd yr Aelod Llywyddol y newidiadau canlynol i'r adroddiad:

1) Angen newid y ffigurau y cyfeirir atynt ar dudalen 11, paragraff 4.2. Mae pob un o'r ffigurau a welir yn y paragraff yn £200 islaw yr hyn y dylent fod. Mae'r fersiynau diwygiedig eisoes wedi'u dosbarthu.

| **Taliadau Cydnabyddiaeth Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid Dinesig** (gan gynnwys cyflogau sylfaenol) | | |
|---|---|---|
| | **Arweinwyr Dinesig** | **Dirprwy Arweinwyr Dinesig** |
| Lefel 1 | £24,300 | £18,300 |
| Lefel 2 | £21,800 | £16,300 |
| Lefel 3 | £19,300 | £14,300 |

2) Tudalen 19 - Newid PDP Diogelu i PDP Pobl a newid dyddiadur y cyngor yn unol â hynny.

3) Tudalen 20 - Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe - ychwanegu Ward Glandŵr.

4) Dyddiadur y Cyngor - Tudalen 42 (Medi) - Symud y Pwyllgor Archwilio o ddydd Iau 13 i ddydd Mawrth 11.

5) Mae newidiadau/diweddariadau i restr o aelodaeth pwyllgorau, cyrff allanol ac aelodau hyrwyddo wedi'u dosbarthu yn y siambr a byddant yn cael eu hatodi at y cofnodion.

Un newid arall i'r rhestr o bwyllgorau (tudalen 4) – Cydbwyllgor Ymgynghori – dileu G J Tanner ac ychwanegu D H Hopkins.

**6. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Amlinellodd Arweinydd y Cyngor enwau'r cynghorwyr sydd wedi'u dewis i fod yn Aelodau Cabinet y Cyngor. Amlinellodd hefyd bortffolios y Cabinet:

| **Portffolio'r Cabinet** | **Cynghorwyr** |
|---|---|
| Economi a Strategaeth | Rob C Stewart |
| Trawsnewid Busnes a Pherfformiad | Clive E Lloyd |
| Gofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda | Mark C Child |
| Cartrefi ac Ynni | Andrea S Lewis |
| Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau | Jen A Raynor |
| Buddsoddiad, Adfywio a Thwristiaeth | Robert Francis-Davies |
| Cyflwyno | David H Hopkins |
| Yr Amgylchedd a Rheoli | Mark Thomas |

| | |
|---|---|
| Isadeiledd | |
| Cymunedau Gwell | June E Burtonshaw (Lleoedd)<br>Mary Sherwood (Pobl) |
| Gwasanaethau Plant | Elliott J King (Blynyddoedd Cynnar)<br>Will Evans (Pobl Ifanc) |

**7. Materion Cyfansoddiadol 2018-2019.**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Monitro a oedd yn hysbysu'r cyngor o faterion cyfansoddiadol angenrheidiol y mae angen eu trafod yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor. Byddai materion o'r fath yn galluogi'r cyngor i weithredu'n effeithlon ac yn gyfreithlon.

Atgoffwyd y cynghorwyr gan y Swyddog Monitro o'r newidiadau a wnaed i'r adroddiad a amlinellwyd eisoes gan yr Aelod Llywyddol yn ei gyhoeddiadau.

**Penderfynwyd:**
1) Penodi Cyrff y Cyngor a nifer y seddi a ddyrannwyd iddynt fel a restrir isod ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019:

| Corff y Cyngor (Pwyllgorau) | Seddi |
|---|---|
| Y Cyngor | **72** |
| Y Cabinet | **10** |
| Apeliadau a Dyfarniadau | **7** |
| Penodiadau | **13** |
| Archwilio | **13** |
| Arfarnu a Thaliadau Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr | **9** |
| Disgyblu Prif Swyddogion | **13** |
| Apeliadau Disgyblu Prif Swyddogion | **13** |
| Gwasanaethau Democrataidd | **13** |
| Cwynion Absenoldeb Teuluol | **-** |
| Datblygu Polisi’r Economi ac Isadeiledd | **12** |
| Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau | **12** |
| Datblygu Polisi Pobl | **12** |
| Datblygu Polisi Lleihau Tlodi | **12** |
| Polisi Datblygu - Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol | **12** |
| Cydbwyllgor Ymgynghori | **7** |
| Trwyddedu Cyffredinol | **12** |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | **3** |
| Trwyddedu Statudol | **12** |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | **3** |
| Cronfa Bensiwn | **6** |
| Cynllunio | **12** |

| | |
|---|---|
| Rhaglen Graffu | **13** |
| Safonau | **9** |
| Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, | **5** |
| **Paneli, Fforymau, Grwpiau etc.** | |
| Panel Derbyniadau | **6** |
| Panel Llofnodwyr Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog | **1** |
| Panel Herio | **13** |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | **12** |
| Bwrdd Magu Plant Corfforaethol | **9** |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | **9** |
| Grŵp Cynghori Datblygiad | **3** |
| Panel Ariannu Allanol | **10** |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | **6** |
| Panel Cronfa Datblygu Cynaliadwy | **2** |
| Panel Apêl Cronfa Datblygu Cynaliadwy | **1** |
| Bwrdd Pensiwn Lleol | **1** |
| Grŵp Ymweliadau Rota'r Gwasanaethau Cymdeithasol | **14** |
| Panel Swyddi Gwag y Pwyllgor Safonau | **3** |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe (SSLF) | **23** |
| Panel Ymddiriedolwyr | **17** |

2) Telir **Cyflog Uwch** i "**Arweinydd y Cyngor a Dirprwy Arweinydd y Cyngor**", **Band 1, Grŵp A**:
   a) Arweinydd y Cyngor (£53,300);
   b) Dirprwy Arweinydd y Cyngor (£37,300).

3) Telir **Cyflog Uwch** i "**Aelodau'r Weithrediaeth"**, **Band 2, Grŵp A,** (£32,100):
   a) Aelodau'r Cabinet **x 8**.

4) Telir **Cyflog Uwch** i "**Gadeiryddion Pwyllgorau**", **Band 3, Grŵp A**,(£22,300):
   a) Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol;
   b) Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio;
   c) Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi ac Isadeiledd;
   d) Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau;
   e) Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl;
   f) Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi;
   g) Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol
   h) Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu.

5) Penderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yw rhaid talu **Cyflog Uwch**, **Band 4** (yn amodol ar y rheol 10%), (£22,300) i **"Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf"**;

6) Telir **Cyflog Dinesig, Lefel 1** i'r swyddi canlynol (yn amodol nad ydynt eisoes yn derbyn Cyflog Uwch):
a) Yr Arglwydd Faer (£24,300);
b) Dirprwy Arglwydd Faer (£18,300).

7) Ailbenodi **Aelod Llywyddol** a **Dirprwy Aelod Llywyddol**, a'u bod nhw'n cadeirio cyfarfodydd y cyngor. Ni fydd y swyddi hyn yn derbyn Cyflog Uwch;

8) Y cyngor i eithrio'r pwyllgorau a restrir yn **Atodiad C** yr adroddiad o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019 i ganiatáu mwy o gynrychiolaeth gan Grwpiau'r Wrthblaid;

9) Y cynghorwyr a glustnodwyd i wasanaethu ar Gyrff y Cyngor yn unol â'r enwebiadau a dderbynnir gan y Grwpiau Gwleidyddol fel y nodir yn **Atodiad 1** y cofnodion hyn;

10) Penderfyniad Arweinydd y Cyngor i benodi cynghorwyr i wasanaethu ar Gyrff Allanol i gael ei nodi fel y nodir yn **Atodiad 2** y cofnodion hyn;

11) Ailgadarnhau mabwysiadu Cyfansoddiad y Cyngor y gellir ei weld yn www.abertawe.gov.uk/cyfansoddiad;

12) Ailethol y Cynghorydd Peter M Black yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd;

13) Talu'r Aelodau Cyfetholedig hynny sy'n gymwys am daliadau Aelod Cyfetholedig am gyfanswm o 20 niwrnod llawn y flwyddyn ddinesig;

14) Ailgadarnhau Llawlyfr y Cynghorwyr sydd i'w weld yn www.abertawe.gov.uk/llawlyfrcynghorwyr;

15) Dylai Adrannau B ac C Llawlyfr y Cynghorwyr fel a argymhellwyd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2018 a amlinellir yn **Atodiad F** yr adroddiad gael eu mabwysiadu;

16) Dylid nodi rhestr Meysydd yr Aelodau Hyrwyddo a'r cynghorwyr cyfrifol a amlinellir yn Atodiad 3 y cofnodion hyn:

17) Dylid nodi Pellteroedd Milltiredd Cynghorwyr 2017-2022.

18) Cadarnhau a mabwysiadu Dyddiadur Cyrff y Cyngor 2018-2019 a restrir yn **Atodiad F** yr adroddiad;

19) Cynnal unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor a/neu'r Cynghorwyr o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 8. Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) - Polisi Diogelu Data

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu Polisi Diogelu Data diwygiedig y cyngor.

**Penderfynwyd** mabwysiadu’r Polisi Diogelu Data diwygiedig.

## 9. Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi Adroddiad Blynyddol 2017/2018.

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd a chadeiryddion y pum PDChP adroddiad a oedd yn amlinellu eu gwaith yn ystod blwyddyn ddinesig 2017-2018.

**Penderfynwyd**:
1) Bydd cynlluniau gwaith PDP yn cael eu sefydlu ar ddechrau'r flwyddyn ddinesig drwy gyfarfod rhwng cadeiryddion y Pwyllgorau Datblygu Polisi, Aelodau Cabinet a'r Cyfarwyddwyr;

2) Bydd cynlluniau gwaith PDP yn gryno ac yn gyflawnadwy, yn cyd-fynd â chyllidebau'r cyngor a blaenoriaethau corfforaethol, ni fyddant yn dyblygu gwaith craffu a bydd ganddynt yr adnoddau cywir;

3) Bydd gan eitemau yng nghynlluniau gwaith PDP gwmpas clir a graddfeydd amser clir a bydd canlyniadau'n cael eu pennu o'r dechrau;

4) Sefydlu ymagwedd safonol (ond hyblyg) at weithio a datblygu polisi ar draws PDP, gan ystyried y pum ffordd o weithio a bennwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

## 10. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

**Penderfynwyd** gosod y Sêl Gyffredin ar unrhyw ddogfen angenrheidiol i weithredu unrhyw benderfyniad a gymeradwywyd neu a gadarnhawyd mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ddinesig flaenorol.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.43 pm

**Cadeirydd**